Offerynnau

Dewch i chwarae offerynnau o bob math,
Dewch i chwarae offerynnau, rhai mawr
a rhai bach.

Chwarae'r piano, piano, piano,
Chwarae'r piano, piano piano,
Cerddoriaeth gyflym,
Cerddoriaeth araf,
Cerddoriaeth gyflym,
Cerddoriaeth araf,
Dyma beth yw joio – chwarae'r piano!

Chwarae'r drwm, drwm, drwm,
Chwarae'r drwm, drwm, drwm,
Taro'n swnllyd,
Taro'n dawel,
Taro'n swnllyd,
Taro'n dawel,
Bwm bwm bwm, dwi'n hoffi chwarae'r drwm!

Chwarae'r gitâr, gitâr, gitâr,
Chwarae'r gitâr, gitâr, gitâr,
Strymio nodau hapus,
Strymio nodau trist,
Strymio nodau hapus,
Strymio nodau trist,
Canwch gyda fi tra dwi'n chwarae fy ngitâr i.

Chwarae'r trwmped, trwmped, trwmped,
Chwarae'r trwmped, trwmped, trwmped,
Chwythu nodau hir,
Chwythu nodau byr,
Chwythu nodau hir,
Chwythu nodau byr,
Sefyll ar y llwyfan a chwarae'r trwmped arian.

Dewch i chwarae offerynnau o bob math,
Dewch i chwarae offerynnau, rhai mawr a rhai bach.

© 2019 S4C